# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Yr Hen Lys
Sgwâr Sant Pedr
RHUTHUN
LL15 1AA
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

The Old Courthouse
St. Peter's Square
RUTHIN
LL15 1AA
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Iolo Williams*

14/02/2024
To the Town Mayor and Councillors
**Ruthin Town Council**

Dear Member,
You are summoned to attend an Ordinary Meeting of **RHUTHUN TOWN COUNCIL** to be held at The Old Courthouse and online via Zoom on **MONDAY, 19 February 2024** at **7:00p.m**. The business to be transacted thereat is as set out in the agenda below.

Yours sincerely

*Iolo Williams*

At Faer a Chynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod,

Gwys i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn Yr Hen Lys ac ar-lein trwy gyfrwng Zoom **NOS LUN, 19 Chwefror 2024** am **7:00pm.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Iolo Williams*
Iolo Williams, **Clerc y Dref**

# Cofnodion Drafft / Draft Minutes

1. **CROESO GAN Y MAER AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Christine Ellis, Gavin Harris, Rosie Hughes-Anderson a Stephen Beach.

   Yn bresennol: Y Cynghorwyr Anne Roberts, Jabez Redfern Oakes, Menna Jones, Heather Williams, Peter Daniels, Mike Van der Eijk, Lisa Thomas, Dafydd Hughes, Rachel Ryland, Jim Bryan a Darren Jones
   Roedd y Cynghorwyr Sir, Emrys Wynne, Bobby Feeley a Huw Hilditch Roberts yn bresennol drwy gyfrwng Zoom

   **WELCOME FROM THE MAYOR AND APOLOGIES FOR ABSENCE**
   Apologies received from Councillors Christine Ellis, Gavin Harris, Rosie Hughes-Anderson and Stephen Beach.

   Present were Councillors Anne Roberts, Jabez Redfern Oakes, Menna Jones, Heather Williams, Peter Daniels, Mike Van der Eijk, Lisa Thomas, Dafydd Hughes, Rachel Ryland, Jim Bryan and Darren Jones
   County Councillors Emrys Wynne, Bobby Feeley and Huw Hilditch Roberts attended via Zoom

2. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Nid oedd datganiadau o fuddiant.
   **DECLARATIONS OF INTEREST**
   There were no Declarations of interest

3. **ADRODDIAD Y MAER**
   Penderfynwyd derbyn adroddiad y Maer.
   **MAYOR'S REPORT**
   Resolved to accept the Mayor's report

4. **ADRODDIADAU'R AELODAU**
   Penderfynwyd derbyn adroddiadau'r Aelodau. Eglurodd y Cynghorydd Menna Jones ei bod wedi cyflwyno ei hadroddiad i'r Dirprwy Glerc ar amser ond ni anfonwyd yr adroddiad tan ddydd Gwener.
   **MEMBER'S REPORTS**
   Resolved to accept the Members reports. Councillor Menna Jones explained she had submitted her report to the Deputy Clerk on time but that the report wasn't sent until Friday.

5. **ADRODDIADAU'R CYNGHORWYR SIR**
   Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley fod cyfarfod i fod i gael ei gynnal cyn diwedd y mis i drafod prosiect y Felodrom, a oedd bellach yn wynebu cynnydd ychwanegol o 13.5 y cant mewn costau adeiladu.

Mae'r drefn o gasglu sbwriel yn newid ym mis Mehefin gyda biniau ailgylchu newydd i gael eu dosbarthu o hyn i fis Mai. Bydd gwastraff ailgylchu yn cael ei gasglu bob wythnos a gwastraff cyffredinol unwaith bob pedair wythnos.

Pennwyd y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar 9.3 y cant gyda thoriadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd oddeutu 40 y cant, ac mae disgwyl y bydd toiledau cyhoeddus yn cau.

Pan ofynnwyd am brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro, dywedodd fod yr Awdurdod yn cadw rheolaeth ar y gwariant ac roedd o fewn y nod er gwaetha'r toriadau sy'n wynebu'r Cyngor.

Hododd y Clerc y Cynghorydd Feeley am fater a oedd ar ei hadroddiad y mis blaenorol, yn ymwneud â faniau contractwyr sy'n cael eu parcio o amgylch Sgwâr Sant Pedr. Mae'r Cyngor Tref wedi cael cwynion pellach gan drigolion a gofynnwyd i'r Cynghorwyr Sir godi'r mater parhaus hwn gyda'r tîm gorfodaeth.

**COUNTY COUNCILLORS' REPORTS**

Councillor Bobby Feeley reported there was a meeting due before the end of the month to discuss the Velodrome Project which now faced an additional 13.5% increase in building costs.

The refuse collections are changing in June with new recycling bins being delivered from now until May Recycling collections will be weekly and refuse every four weeks

The Council tax rise has been set at 9.3% with the library cuts of around 40% and the expected closure of public toilets.

When asked about the levelling up projects she stated that that the authority were keeping tight reins on the spending and were on target despite the cuts being experienced by the authority.

The Clerk asked Councillor Feeley about an aspect of her previous month's report regarding parking by contractors' vans around St Peter's Square. The Town Council have received further complaints from residents and asked that County Councillors raise this ongoing matter with the enforcement team.

**6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**

Derbyn a chadarnhau bod cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 yn gywir.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jim Bryan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rachel Ryland.

**MINUTES OF THE PREVIOUS ORDINARY MEETING**

To receive and confirm as correct the minutes of the Ordinary meeting held on 22 January 2024.

RESOLVED to confirm the minutes proposed by Councillor Jim Bryan and seconded by Councillor Rachel Ryland

**7. MATERION YN CODI**

Cododd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes y materion canlynol:

O eitem 10, mae'n drafftio polisi'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd.

Roedd yn dymuno egluro'r materion cyfreithiol yn ymwneud â'r felodrom ond yn sgil diweddariad y Cynghorydd Feeley, teimlai y gallai hyn aros.
Atgoffodd y Cynghorwyr o'r addewid yng nghynllun busnes yr Hen Lys i gefnogi'r celfyddydau ac i hyrwyddo'r defnydd o'r adeilad.

**MATTERS ARISING**
Councillor Jabez Redfern Oakes raised the following matters
From Item 10 he is drafting a policy with regard to public participation
He wished to clarify the legal matters surrounding the velodrome but in light of Councillor Feeley's update felt this could wait
He reminded councillors of the pledge in The Old Courthouse business plan to support the arts and promote use of the building.

**8. COFNODION Y PWYLLGOR ANWYNDERAU**
I adolygu penderfyniadau'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024.
Penderfynwyd derbyn penderfyniadau'r pwyllgor. Cynigiodd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes y penderfyniad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Darren Jones.

**MINUTES OF THE AMENITIES COMMITTEE**
To review the decisions of the committee held on 5 February 2024
Resolved to accept the decisions of the committee. Resolution proposed by Councillor Jabez Redfern Oakes and seconded by Councillor Darren Jones

**9. COFNODION Y PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL, CYNLLUNIO A CHYLLID**
I adolygu penderfyniadau'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024.
Penderfynwyd derbyn penderfyniadau'r pwyllgor gydag un newid gan y Cynghorydd Peter Daniels sef bod y geiriad yn ymwneud â cholli mannau parcio i'r anabl yn cael ei newid i "bryderon difrifol". Cynigiwyd y penderfyniad gan y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Menna Jones.

**MINUTES OF THE GENERAL PURPOSES, PLANNING AND FINANCE COMMITTEE**
To review the decisions of the committee held on 5 February 2024
Resolved to accept the decisions of the committee with one amendment from Councillor Peter Daniels that wording regarding the loss of disabled spaces be changed to "deep reservations". Resolution proposed by Councillor Jabez Redfern Oakes ans seconded by Councillor Menna Jones

10, **Diweddariad Polisiau**

Rhoddodd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am bolisi'r Hen Lys. Roedd newidiadau wedi'u cynnwys yn ymwneud â'r clo agoriad. Nodwyd yr angen am ofalwr yn y cynllun busnes a bydd y Pwyllgor Amwynderau yn trafod hyn yn y lle cyntaf.
Mater i'r Cyngor Llawn fydd ffioedd a phryd i'w hepgor.
Mae gwelliant arall ar gyfer defnydd dethol o'r adeilad ac mae polisi gwirfoddolwyr i gael ei ddatblygu. Penderfynwyd derbyn y newidiadau. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes ac eiliwyd gan y Cynghorydd Anne Roberts. Cynigiodd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes dderbyn gweddill y mân newidiadau ac fei'i eiliwyd gan y Cynghorydd Anne Roberts

Diolchodd y Cynghorydd Peter Daniels i'r Cynghorydd Oakes am ei waith.

**Policy Updates**

Councillor Jabez Redfern Oakes updated members on the ToC policy,
Amendments had been incorporated regarding the key lock
The need for a caretaker had been identified in the business plan and is due to be discussed at the Amenities Committee initially
The matter of fees and when to waive them will be a matter for the Full Council
There is another amendment for exclusive use of the building and a volunteers policy is to be developed. Resolution to accept changes proposed by Councillor Jabez Redfern Oakes and seconded by Councillor Anne Roberts.
Resolution to accept the remainder of the minor changes proposed by Councillor Jabez Redfern Oakes and seconded by Councillor Anne Roberts
Councillor Peter Daniels thanked Councillor Oakes for his work.

**11. Coffad D-Day ar ei 80fed Penblwydd**

Derbyniodd y Clerc ohebiaeth gan Un Llais Cymru ynghylch digwyddiadau.

Cytunodd y Cynghorwyr y byddai gwasanaeth ger y Gofeb Ryfel yn ffordd addas o nodi'r achlysur a byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Parchedig Luke Bristowe.

**Commemoration D-Day on it's 80th Anniversary**

The Clerk had received communications from One Voice Wales regarding events.
Councillors agreed that a service at the War Memorial would be a suitable marking of the occasion and the Clerk would contact Rev Luke Bristowe.

**12. Cymeradwyo aelodaeth y Clerc o'r SLCC ar gyfer 2024**

Cynigiodd y Cynghorydd Jim Bryan ein bod yn cymeradwyo'r aelodaeth ar gyfer 2024 ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes.

**To Approve the Clerk's membership of the SLCC for 2024**

Resolved to approve the membership for 2024 proposed by Councillor Jim Bryan and seconded by Councillor Jabez Redfern Oakes

**13. Derbyn manylion yr adolygiad o'r terfynau cyflymder 20mya a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru**

Eglurodd y Cynghorydd Peter Daniels gefndir yr adolygiad ac na wnaeth pump o chwe sir Gogledd Cymru gais am eithriadau. Gallai'r adolygiad gan Lywodraeth Cymru gymryd hyd at 12 mis a byddai Cyngor Sir Ddinbych yn edrych ar eithriadau felly roedd cyfle i ddylanwadu ar unrhyw newidiadau yn lleol.

PENDERYFNWYD y byddai'r Cynghorydd Peter Daniels yn paratoi papur ar gyfer y cynghorwyr.

**To receive details of the review of the 20mph speed limits announced by Welsh Government**

Councillor Peter Daniels explained the background to the review and that exemptions hadn't been applied in five of the six North Wales Counties. The review by Welsh Government could take up to 12 months and that DCC would be looking at exemptions so there was an opportunity to influence any changes locally.

RESOLVED that Councillor Peter Daniels prepare a paper for councillors

**14. DATGANIAD ARIANNOL**

Derbyn a chadarnhau'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2024.
Cadarnhawyd y Datganiad Ariannol.

**FINANCIAL STATEMENT**

To receive and confirm the financial statement for the period ending 31 January 2024

The Financial Statement was confirmed

**15.** **CYFRIFON I'W TALU**

Cymeradwyo talu'r eitemau a ddosbarthwyd ar wahân

Cymeradwywyd talu'r eitemau a ddosbarthwyd ar wahân. Eglurdd y Clerc dair eitem  sef anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych am osod goleuadau Nadolig, HCI Data am gofrestru parth. Eglurodd y Clerc fod llythyr wedi'i dderbyn gan Swyddfa'r Cabinet yn esbonio'r sefyllfa'n ymwneud â pharthau gov.uk a chroesawodd y Cynghorydd Peter Daniels y cynnydd gyda'r wefan. Roedd yr eitem arall ar gyfer cynllun i gyd-fynd â chais y Cyngor i'r Gofrestrfa Dir ynghylch y Gofeb Ryfel.

**ACCOUNTS FOR PAYMENT**

To approve payment of the items circulated separately

The Invoices were approved for payment. Three items were clarified by the Clerk. Invoice from Denbighshire County Council for Christmas lights installation, HCI Data for domain registration. The clerk explained that a letter had been received form the Cabinet Office clarifying the position regarding gov.uk domains and Councillor Daniels welcomed the progress on the website. The other item was for a plan to accompany the Council's application to the Land Registry regarding the War Memorial.

**16.** **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun 18 Mawrth 2024.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod.

**DATE OF NEXT MEETING**

To confirm the date of the next meeting as Monday 18 March 2024.

The Meeting Date was confirmed